Dyletswyddi – mis Chwefror
Cyhoeddi : Cath
Drws : Gwyneth

capelsalem.org
SALEM
CYHOEDDIADAU MIS CHWEFROR

Casgliad hen stampiau yn y cyntedd

Oedfaon y Sul: **Am 10:30 y bore a 6:00 yr hwyr.**
Ysgol Sul yn y bore wedi i'r plant a'r ifanc gyfrannu i rannau arweiniol yr Oedfa foreol.
Pob dydd Sul byddwn yn meddwl am eglwys arall (**) o fewn ein henaduriaeth: gofynnir i chi gweddïo'r canlynol:
"Arglwydd Da, heddiw cofiwn am eglwys ..... cyflwynwn i Ti ei swyddogion a'i haelodau gan ofyn i Ti barhau i'w harwain a'i chynnal yn Dy waith. Clyma hi a ninnau'n un yn ein gwaith a'n tystiolaeth i Ti. Amen."

Chwefror 5ed **Bethel, Llangyfelach	Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail Gwasanaeth cymun gyda'r hwyr	Blodau: Liz Reynolds	Casglyddion: Yr Ysgol Sul	Te a choffi: Mari Hughes a Sara Jones
12fed **Jerwsalem – Noddfa, Ynysybwl	Parch. Ddr. John Tudno Williams	Gwyneth Dyer	Y Blaenoriaid	-
19eg **Sutton, Surrey	Parch. Aled Edwards	-	Y Blaenoriaid	-
26ain	Parch. Dafydd Andrew Jones	-		-
Mawrth 4ydd	Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail Dewch i ddathlu ein nawddsant ac i ddiolch amdano - croeso i'r plant wisgo i fyny ar gyfer Gŵyl Ddewi. *Cawl ar ôl oedfa'r bore - elw at yr estyniad* *Byddwn yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau caws, bara, ac ati* Byddwn yn gweinyddu'r cymun yn ystod ein hoedfa Gŵyl Ddewi – gan groesawu plant i dderbyn y bara a'r bobol ifainc i gymryd yr elfennau i gyd.	Glenys Llewelyn	Yr Ysgol Sul	Siwan a'r Blaenoriaid

Cyfarfodydd yn ystod yr Wythnos

Bore Mercher	1af	9:45am	Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin
Nos Iau	2il	6:00-7:00pm	Adran yr Urdd, Salem, oed gynradd, yn y festri/ystafell Edwin
Nos Fawrth	7fed	7:15pm	Ymarfer Grwp Canu'r Capel dan arweinyddiaeth Geraint Cynan
Nos Fawrth	7fed	7:30pm	Cwrdd Blaenoriaid
Bore Mercher	8fed	11:00am	Cylch Trafod Beiblaidd yn ystafell Edwin – y bregeth ar y mynydd
Nos Iau	9fed	6:00-7:00pm	Adran yr Urdd, Salem, oed gynradd, yn y festri/ystafell Edwin
Dydd Gwener	10fed	11:00am tan 12:00	Clwb Coffi yn Ystafell Edwin. Croeso i bawb sy'n rhydd yn ystod y bore i ymuno â ni am goffi a sgwrs a chwmnïaeth.
Nos Fawrth	14eg	7:15pm	Ymarfer Grwp Canu'r Capel dan arweinyddiaeth Geraint Cynan
Nos Fawrth	21ain	7:15pm	Ymarfer Grwp Canu'r Capel dan arweinyddiaeth Geraint Cynan
Bore Mercher	22ain	9:45am	Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin
Nos Iau	23ain	7:30pm	Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yng Nghapel Minny Street. Myfyrdod y Grawys - 1 : siaradwr – aelod o Minny Street.
Nos Iau	23ain	6:00-7:00pm	Adran yr Urdd, Salem, oed gynradd, yn y festri/ystafell Edwin
Nos Lun	27ain	7:30pm	Y Gell Weddi yn y Mans
Nos Fawrth	28ain	7:15pm	Ymarfer Grwp Canu'r Capel dan arweinyddiaeth Geraint Cynan
Bore Mercher	29ain	11:00am	Cylch Trafod Beiblaidd yn ystafell Edwin – y bregeth ar y mynydd

Rhaghysbysebion

Mis Mawrth			
Dechrau Mawrth, mae'r ffilm "Hunkey Dory" yn agor yn Chapter, gydag un o'n haelodau, Tomos Harries, â rhan yn y ffilm (yn portreadu'r cymeriad "Evan" mae'n debyg !!) Bwriedir mynd fel grŵp i weld y ffilm – felly – "Watch this space" am fwy o fanylion! Rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os oes diddordeb gyda chi.			
Nos Iau	1af	6:00-7:00pm	Adran yr Urdd, Salem, oed gynradd, yn y festri/ystafell Edwin
Nos Fawrth	6ed	7:15pm	Ymarfer Grwp Canu'r Capel dan arweinyddiaeth Geraint Cynan
Nos Fawrth	6ed	8:00pm	Clwb Llyfrau Salem yn y Mans: "3 rheol anhrefn" gan Daniel Davies llyfr o ddewisiad Eleri Rogers
Bore Mercher	7fed	9:45am	Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin
Nos Fercher	7fed	7:30pm	Swper Gŵyl Ddewi Salem - yn y Mochyn Du, Gerddi Soffia – gyda Chôr y Mochyn Du yn ein difyrru!!
Dydd Sul	11eg	2:30pm	Bwydo'r di-gartref – festri Tabernacl yr Ais – Tîm Enyd
Dydd Sul	18fed	11:30am	*Ar ôl oedfa'r bore - stondin cacennau er fudd Apêl Guatamala – cyfraniadau i'r festri cyn y gwasanaeth, plîs!! Dwedwch wrth Siwan, os am gyfrannu.*

APÊL – Mae bocs yn y cyntedd ar gyfer ffoaduriaid. Rydym yn casglu gwahanol fathau o nwyddau amdanynt, bydd yn newid yn fisol. Bydd y bocs yn cael ei wacáu ar ddiwedd pob mis. **Mae eisiau: bwydydd sych; sudd ffrwythau bywyd hir (long life fruit juice!); pasta; tiwna;** diolch yn fawr.